HYSBYSIAD O REFFERENDWM

Refferendwm ar aelodaeth y Deyrnas Unedig o'r Undeb Ewropeaidd yn Rhanbarth Cymru

1. Bydd refferendwm yn cael ei gynnal **ddydd Iau 23 Mehefin 2016** i benderfynu ar y cwestiwn isod:

   A ddylai'r Deyrnas Unedig aros yn aelod o'r Undeb Ewropeaidd neu adael yr Undeb Ewropeaidd?

2. Rhaid i geisiadau i bleidleisio gyrraedd y Swyddog Cofrestru Etholiadol Lleol priodol erbyn 12 hanner nos **Ddydd Mawrth 7 Mehefin 2016.** Gellir gwneud ceisiadau ar-lein: **www.gov.uk/register-to-vote.**

3. Rhaid i geisiadau, ceisiadau i newid neu geisiadau i ganslo pleidleisiau post gyrraedd y Swyddog Cofrestru Etholiadol Lleol priodol erbyn 5pm ddydd Mercher 8 Mehefin 2016.

4. Rhaid i geisiadau newydd i bleidleisio drwy ddirprwy yn y refferendwm hwn gyrraedd y Swyddog Cofrestru Etholiadol Lleol priodol erbyn 5pm ddydd Mercher 15 Mehefin 2016. Rhaid i geisiadau i wneud newidiadau a chanslo trefniadau presennol pleidleisio drwy ddirprwy gyrraedd y Swyddog Cofrestru Etholiadol Lleol priodol erbyn 5pm ddydd Mercher 8 Mehefin 2016.

5. Rhaid i geisiadau i bleidleisio drwy ddirprwy mewn argyfwng yn y refferendwm hwn ar sail anallu corfforol neu am resymau gwaith/gwasanaeth gyrraedd y Swyddog Cofrestru Etholiadol Lleol priodol erbyn 5pm ar 23 Mehefin 2016. Rhaid i'r anallu corfforol fod wedi digwydd ar ôl 5pm ddydd Mercher 15 Mehefin 2016. I ymgeisio ar sail gwaith/gwasanaeth, rhaid i'r person fod wedi sylweddoli na allent fynd i'r orsaf bleidleisio ei hun ar ôl 5pm ddydd Mercher 15 Mehefin 2016.

17 Mai 2016 Swyddog Cyfrif Rhanbarthol (Cymru): **Colin Everett**

Argraffwyd a chyhoeddwyd gan y Swyddog Cyfrif Rhanbarthol, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug, Sir y Fflint CH7 6NB